**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 2030 (Cy. 143 )

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2000

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

O dan adran 41(1)(b) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 mae corff llywodraethu ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a reolir neu ysgol arbennig gymunedol yn gyfrifol am benderfynu ar amserau sesiynau'r ysgol. Hynny yw, yr amserau pan fydd pob un o sesiynau'r ysgol (neu os nad oes ond un, sesiwn yr ysgol) yn dechrau ac yn dod i ben ar unrhyw ddiwrnod.

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i gorff llywodraethu ysgol o'r fath eu dilyn cyn newid amserau eu sesiynau. Nid ydynt yn gymwys i ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir nac ysgolion arbennig sefydledig. Ceir esboniad manylach o'r Rheoliadau isod.

Mae Rheoliad 2 yn nodi'r gweithdrefnau y mae rhaid i'r corff llywodraethu eu dilyn.

Mae Rheoliad 3 yn pennu pa bryd y mae newid i amser sesiynau'r ysgol yn weithredol.

Mae Rheoliad 4 yn darparu bod y cyfarfod â'r rhieni (y mae'n ofynnol ei gynnal cyn bod unrhyw newid yn amserau sesiynau'r ysgol yn cael ei wneud) o dan reolaeth y corff llywodraethu.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 2030 (W.143 )

# EDUCATION, WALES

## The Changing of School Session Times (Wales) Regulations 2000

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

Under section 41(1)(b) of the School Standards and Framework Act 1998 the governing body of a community, voluntary controlled or community special school are responsible for determining the times of the school sessions. That is to say, the times at which each of the school sessions (or, if there is only one, the school session) is to begin and end on any day.

These Regulations set out the procedures to be taken by the governing body of such a school before making any change in its session times. They do not apply to foundation, voluntary aided or foundation special schools. The Regulations are explained in more detail below.

Regulation 2 sets out the procedures which the governing body must follow.

Regulation 3 specifies when a change in the times of school sessions takes effect.

Regulation 4 provides for the meeting with parents (which is required to be held before any change in school session times is made) to be under the control of the governing body.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 2030 (Cy. 143 )

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2000

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *24 Gorffennaf 2000* |
| *Yn dod i rym* | *1 Medi 2000* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 41(3) a 138(7) ac (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998**(a)**, ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru**(b)**, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.-**(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2000 a deuant i rym ar 1 Medi 2000.

(2) Dim ond i Gymru y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys.

**Y weithdrefn ar gyfer newid amserau sesiynau ysgolion**

**2.-**(1) Os bydd corff llywodraethu ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a reolir neu ysgol arbennig gymunedol yn bwriadu newid amserau sesiynau'r ysgol (neu, os nad oes ond un, sesiwn yr ysgol), rhaid iddynt -

(a) ymgynghori â'r awdurdod addysg lleol, y pennaeth a'r holl bersonau a gyflogir mewn swyddi addysgu neu swyddi nad ydynt yn swyddi addysgu yn yr ysgol cyn cymryd unrhyw un o'r camau a nodir ym mharagraffau (b) i (e);

(b) paratoi datganiad-

(i) sy'n dangos eu bod yn bwriadu newid yr amserau hynny,

(ii) sy'n pennu'r newid arfaethedig a phryd maent yn bwriadu iddo ddod yn weithredol,

(iii) sy'n tynnu sylw at unrhyw sylwadau ar y cynnig a gynhwysir fel atodiad i'r datganiad

(a) 1998 p.31. Am ystyr "regulations" gweler adran 142(1).

(b) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 2030 (W. 143 )

# EDUCATION, WALES

## The Changing of School Session Times (Wales) Regulations 2000

| | |
|---|---|
| *Made* | *24th July 2000* |
| *Coming into force* | *1st September 2000* |

In exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 41(3) and 138(7) and (8) of the School Standards and Framework Act 1998**(a)**, and now vested in the National Assembly for Wales**(b)**, the National Assembly for Wales makes the following Regulations:

**Citation, commencement and application**

**1.-** (1) These Regulations may be cited as the Changing of School Session Times (Wales) Regulations 2000 and shall come into force on 1 September 2000.

(2) These Regulations apply only in relation to Wales.

**Procedure for changing school session times**

**2.-**(1) Where the governing body of a community, voluntary controlled or community special school propose to make any change in the times of the school sessions (or, if there is only one, the school session), they shall-

(a) before taking any of the actions mentioned in paragraphs (b) to (g), consult the local education authority, the head teacher and all persons employed in any teaching or non-teaching post at the school;

(b) prepare a statement-

(i) indicating that they propose to make a change in those times,

(ii) specifying the proposed change and when they propose that it should take effect,

(iii) drawing attention to any comment on the proposal included as an annex to the

(a) 1998 c.31. For the meaning of "regulations" see section 142(1).

(b) *See* the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

yn rhinwedd paragraff (c) ac sy'n cynnwys unrhyw ymateb i'r sylwadau y barnant i fod yn briodol, a

(iv) sy'n rhoi manylion am ddyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod y mae'n ofynnol iddynt ei gynnal yn rhinwedd paragraff (dd);

(c) cynnwys, mewn atodiad i'r datganiad hwnnw, unrhyw sylw ysgrifenedig ar y cynnig y bydd yr awdurdod addysg lleol yn ei ddarparu i'r perwyl hwnnw, os yw'r awdurdod yn gofyn amdano;

(ch) cynhyrchu'r datganiad hwnnw ac unrhyw atodiad mewn unrhyw iaith neu ieithoedd (yn ychwanegol at y Gymraeg neu'r Saesneg), os o gwbl, barnant yn briodol neu'n unol ag unrhyw gyfarwyddyd gan yr awdurdod addysg lleol;

(d) cymryd unrhyw gamau sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau-

(i) bod rhieni**(a)** pob plentyn cofrestredig yn yr ysgol yn cael (yn rhad ac am ddim) gopi o'r datganiad ac unrhyw atodiad nid llai na phythefnos cyn y cyfarfod y mae'n ofynnol i'r corff llywodraethu ei gynnal yn rhinwedd paragraff (dd), a

(ii) bod copïau o'r datganiad ac unrhyw atodiad ar gael i'w harchwilio (ar bob adeg resymol ac yn rhad ac am ddim) yn yr ysgol yn ystod y cyfnod o bythefnos yn union cyn y cyfarfod;

(dd) rhoi cyfle i drafod y cynnig mewn cyfarfod sy'n agored i-

(i) bob un o rieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol,

(ii) y pennaeth, a

(iii) unrhyw bersonau arall y bydd y corff llywodraethu yn eu gwahodd;

(e) ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd ar y cynnig yn y cyfarfod cyn penderfynu a ddylid newid yr amserau ac (os dylid) a ddylid gweithredu'r cynnig gan ei addasu neu heb ei addasu;

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), os bydd y corff llywodraethu yn penderfynu gweithredu'r newid arfaethedig (gan ei addasu neu heb ei addasu), rhaid iddynt, o fewn dim llai na chwe wythnos cyn bod unrhyw newid yn yr amserau hynny i ddod yn weithredol-

(i) hysbysu'r awdurdod addysg lleol o'r newid a phryd y bwriedir iddo ddechrau dod yn weithredol, a

(a) Gweler adran 576 o Ddeddf Addysg 1996 (w.56) am ystyr "parent".

statement by virtue of paragraph (c) and including such response to the comment as they may consider appropriate, and

(iv) giving details of the date, time and place of the meeting which they are required to hold by virtue of paragraph (f);

(c) if so required by the local education authority, include as an annex to that statement such written comment on the proposal as the authority may provide for that purpose;

(d) produce that statement and any annex in such language or languages (in addition to Welsh or English), if any, as they consider appropriate or as the local education authority may direct;

(e) take such steps as are reasonably practicable to secure-

(i) that the parents**(a)** of all registered pupils at the school are given (free of charge) a copy of the statement and any annex not less than two weeks before the meeting which the governing body are required to hold by virtue of paragraph (f), and

(ii) that copies of the statement and any annex are available for inspection (at all reasonable times and free of charge) at the school during the two week period immediately preceding that meeting;

(f) provide an opportunity for discussion of the proposal at a meeting which is open to-

(i) all parents of registered pupils at the school,

(ii) the head teacher, and

(iii) such other persons as the governing body may invite;

(g) consider any comments made at the meeting on the proposal before determining whether any change in those times should be made and (if so) whether the proposal should be implemented with or without any modification;

(2) Subject to paragraph (3), if the governing body determine to implement the proposed change (with or without modification), they shall, not less than six weeks before any change in those times is to take effect-

(i) inform the local education authority of the change and of when it is to take effect, and

(a) See section 576 of the Education Act 1996 (c.56) for the meaning of "parent".

(ii) cymryd unrhyw gamau sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau bod rhieni pob disgybl cofrestredig yn yr ysgol yn cael eu hysbysu.

(3) Pan fydd a wnelo'r newid â'r amserau y bwriedir i sesiwn ysgol ddechrau yn y bore neu ddod i ben yn y prynhawn (neu'r ddau) ni fydd y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (2) yn llai na thri mis.

**Amserau sesiynau ysgolion a newidiwyd yn dod yn weithredol**

**3.** Ni fydd newid i amserau sesiynau ysgolion yn cael ei wneud ond er mwyn iddo ddod yn weithredol -

(a) pan fydd rheoliad 2(3) yn gymwys, ar ddechrau blwyddyn ysgol; a

(b) ym mhob achos arall, ar ddechrau tymor ysgol.

**Rheoli'r cyfarfodydd**

**4.** Bydd trafodion unrhyw gyfarfod y mae'n rhaid darparu cyfle i drafod ynddo yn rhinwedd Rheoliad 2(1)(dd) o dan reolaeth y corff llywodraethu.

Llofnodwyd ar ran Cynullaid Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998**(a)**

24 Gorffennaf 2000

*Jane Davidson*

Y Dirprwy Lywydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

(a) 1998 p.31.

(ii) take such steps as are reasonably practicable to secure that the parents of all registered pupils at the school are so informed.

(3) Where the change concerns the times at which a school session is to begin in the morning or end in the afternoon (or both) the period referred to in paragraph (2) shall not be less than three months.

**Taking effect of changed school session times**

**3.** A change in the times of a school session shall only be made so as to take effect -

(a) where regulation 2(3) applies, at the beginning of a school year; and

(b) in all other cases, at the beginning of a school term.

**Control of meetings**

**4.** The proceedings of any meeting at which an opportunity for discussion must be provided by virtue of Regulation 2(1)(f) shall be under the control of the governing body.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998**(a)**

24th July 2000

*Jane Davidson*

The Deputy Presiding Officer, National Assembly for Wales

(a) 1998 c.31.

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 2030 (Cy. 143)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2000

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 2030 (W. 143)

# EDUCATION, WALES

## The Changing of School Session Times (Wales) Regulations 2000

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2000

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2000

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090119-3

9 780110 901190

**£2.00**

W/37/09/00 ON